# Canllaw ailgylchu i fyfyrwyr Aber



Cyngor Sir CEREDIGION County Council

Aber

# Croeso i Aber!

Ymunwch â ni i gymryd cyfrifoldeb dros yr amgylchedd drwy ailgylchu. Mae Caru Aber yn ymwneud â hyrwyddo ymddygiad ac agweddau cadarnhaol ac annog pawb i gymryd rhan a chymryd cyfrifoldeb am eu gwastraff

## Rheolau'r Tŷ


- Rhowch eich gwastraff allan ar fore'r casgliad erbyn 8yb
- Y ffordd orau o gyflwyno gwastraff yw drwy ei roi ar y palmant y tu allan i'ch eiddo (oni bai eich cynghorir i wneud fel arall)
- Peidiwch â gadael i wastraff gronni – dylech wybod pryd mae eich diwrnod casglu.
  Bydd llygod mawr, llygod, morgrug, cocrotsis a gwylanod yn ymweld os byddwch yn ei gadael yn rhy hir
- Ni ddylai dim gwastraff bwyd fynd i fagiau bin du na bagiau ailgylchu - bydd gwylanod yn rhwygo bagiau'n agored sy'n cynnwys gwastraff bwyd. Defnyddiwch eich biniau gwastraff bwyd.
- Mae gwastraff sy'n gysylltiedig â Covid i'w roi yn eich bag du na ellir ei ailgylchu. Rhaid rhoi'r gwastraff hwn mewn bagiau dwbl. Os ydych chi'n hunan-ynysu gyda COVID-19 sydd wedi'i gadarnhau neu sy'n cael ei amau peidiwch â rhoi gwastraff allan i'w gasglu am dri diwrnod o leiaf. Os yw eich diwrnod casglu arferol o fewn y tridiau hynny, arhoswch a rhowch eich gwastraff allan y diwrnod casglu rheolaidd nesaf. Gweler http://www.ceredigion.gov.uk/preswyliwr/biniau-ac-ailgylchu/ am fwy o wybodaeth

Rydym yn deall bod angen rhoi trefn ar nifer o wahanol bethau wrth symud i le newydd. Rydym eisiau eich helpu i ymgartrefu a rhoi gwybod i chi beth i'w wneud gyda'ch gwastraff o'r cychwyn cyntaf

Yng Nghyngor Sir Ceredigion, rydym yn gwneud popeth o fewn ein gallu i leihau faint o wastraff sy'n mynd i safleoedd tirlenwi

Mae'r holl fagiau ailgylchu clir yn mynd i gyfleuster lle mae'r deunyddiau yn cael eu didoli a'u hanfon i'w hailgylchu

Mewn blwyddyn, cynhyrchir digon o drydan i bweru tua 300 o gartrefi drwy ddefnyddio gwastraff bwyd Ceredigion



Rydym yn darparu cynwysyddion, bagiau a leinwyr i bob cartref er mwyn ei gwneud yn haws i ailgylchu. Dyma beth ddylech chi fod wedi'u cael yn eich pecyn ailgylchu:



1. Cadi cegin bach ar gyfer eich gwastraff bwyd. Leiniwch y cadi ac unwaith y bydd yn llawn, clymwch y bag a'i roi yn y cynhwysydd mawr



2. Rholyn o leinwyr gwastraff bwyd




3. Cynhwysydd mawr i'w roi allan ar y diwrnod casglu gwastraff bwyd



4. Rholyn o fagiau ailgylchu clir



5. Bocs neu fin olwynion ar gyfer jariau a photeli gwydr


New Household Waste Collection Service
Right Waste, Right Way, Right Day

6. Taflen ynglŷn â'r gwasanaeth casglu gwastraff cartref


DYDD MAWRTH
TUESDAY

7. Eich calendr casglu gwastraff a bagiau ailgylchu. Gallwch hefyd wirio pryd mae eich casgliad nesaf drwy ddefnyddio'r chwiliad cod post ar ein gwefan.

Rhywbeth ar goll o'ch pecyn ailgylchu? Cysylltwch â ni ar 01545 570 881. Er mwyn cael bagiau gwastraff bwyd newydd, bagiau ailgylchu clir neu fin gwastraff bwyd bach, ewch i'ch canolfan ailgylchu gymunedol agosaf.
www.ceredigion.gov.uk/ailgylchu

# Beth rydym yn ei gasglu a phryd

## Bob wythnos

### Bag Ailgylchu Clir

**PAPUR**
Sawl math gwahanol gan gynnwys papur newydd, cylchgronau, cyfeirlyfrau, papur ysgrifennu, post sothach

**CARDBORD**
Bocsys a phacedi

**TUNIAU A CHANIAU**
Tuniau bwyd, caniau diod, tuniau bwyd anifeiliaid anwes, caniau aerosol a ffoil alwminiwm

**CARTONS**
Cartonau cwyrog sudd, llaeth a sŵp

**PLASTIG**
Poteli, tybiau, hambyrddau, potiau, polystyren, bagiau a ffilm. (Gweler tudalen 5 am fwy o wybodaeth am y gwahanol fathau o blastig y gellir eu hailgylchu)

**DIM** papur wal, papur gwrthsaim na phapur sidan, gwydr, tecstilau, pacedi creision, cewynnau, eitemau trydanol, gwastraff bwyd na gwastraff gardd.

GOLCHWCH BOB CYNHWYSYDD CYN EI ROI YN Y BAG AILGYLCHU CLIR

### Gwastraff

**Bwyd heb ei becynnu - wedi'i goginio neu heb ei goginio**
- Ffrwythau a llysiau
- Cig ac esgyrn
- Pysgod ac esgyrn
- Cynnyrch llaeth
- Bagiau te a choffi mâl
- Plisgyn ŵy
- Bwyd sydd wedi dyddio
- Bara a chacennau
- Gwastraff bwyd o blatiau
- Ychydig o olew llysiau
- Hancesi papur, tywelion papur a phapur cegin

**DEFNYDDIWCH EIN LEINWYR GWASTRAFF BWYD AM DDIM**

Sicrhewch eich bod yn clymu top eich leinwyr lawn a rhowch yn eich cynhwysydd mawr i'w gasglu

**DIM** pecynnu, plastig, tuniau, ffoil, gwastraff anifeiliaid anwes na gwastraff gardd.

# Bob 3 wythnos

## Poteli a Jariau Gwydr

Poteli a jariau gwydr gwag o bob lliw, siôp a maint.

**Angen bocs gwydrychwanegol?**
Os oes angen bocs gwydr ychwanegol arnoch ar gyfer eich poteli a jariau gwydr, cysylltwch â ni.

**Bocs gwydr yn rhy fawr neu anodd i'w gario?**
Mae bocs llai gyda dolen ar gael. Cysylltwch â ni am fwy o wybodaeth.

**DIM** mathau eraill o wydr megis cynwysyddion Pyrex, gwydrau diod, sbectol, gwydr o'r ffenestri, addurniadau gwydr, bwrdd malu gwydr, bylbiau golau. Ewch â'r rhain i'ch safle gwastraff cartref agosaf (gweler tudalen 7 am ragor o fanylion)

GOLCHWCH BOB POTEL A JAR WYDR CYN EU RHOI YN Y BOCS

## Gwastraff Na Ellir Ei Ailgylchu

Dylid ond defnyddio'r gwasanaeth yma ar gyfer eitemau na ellir eu hailgylchu megis:

- Cynnwys y sugnwr llwch
- Lludw sydd wedi oeri
- Pecynnu na ellir eu hailgylchu e.e. pacedi creision, cydau bwyd anifeiliaid anwes, gorchudd bariau siocled
- Ffyn gwlân cotwm
- Weips
- Stribedi tabledi meddygol
- Gwastraff glanweithiol (tywelion glanweithiol neu tamponau)

**DEFNYDDIWCH CYNHWYSYDD ADDAS A DIOGEL AR GYFER Y GWASTRAFF HWN MEGIS BAG DU NEU BIN GRYF**

**DIM** Deunydd y gellir ei ailgylchu
**DIM** Gwastraff bwyd
**DIM** Gwydr
**DIM** Gwastraff gardd

# Rydym yn ailgylchu'r 6 math canlynol o blastig:






Mae deunydd pecynnu cyffredin sy'n cynnwys y plastigion hyn yn cynnwys y canlynol:

- Hambyrddau bwyd
- Cling ffilm
- Hambyrddau prydau parod a phrydau microdon
- Unrhyw boteli megis poteli siampŵ, gel cawod, cynhyrchion glanhau, poteli llaeth, poteli olew coginio




- Unrhyw fagiau megis bagiau bara, bagiau brechdanau, bagiau du, bagiau cario
- Tybiau hufen iâ
- Bocsys ffrwythau
- Bagiau postio plastig
- Papur swigod
- Tybiau marjarîn
- Unrhyw ddeunydd pecynnu polystyren megis cyllyll a ffyrc plastig, cwpanau diodydd poeth, bocsys bwyd tecawê, hambyrddau cig, potiau iogwrt a deunydd pecynnu sy'n amddiffyn cynnyrch





# Gair i Gall



- Gadewch y labeli ar eitemau y gellir eu hailgylchu a gadewch y caeadau ar boteli - gallwch hyd yn oed adael y caeadau ar jariau a photeli gwydr ar gyfer y casgliad gwydr



- Golchwch eich cynwysyddion i gyd




Cofiwch, ni ellir ailgylchu pacedi creision, deunydd pecynnu siocled a phecynnau bwyd anifeiliaid anwes yn eich casgliad wythnosol









Ddim yn siŵr a allwch chi ailgylchu eitemau tebyg sy'n gyfuniad o blastig a metel?

Rhowch gynnig ar y prawf sgrensio!

- sgrensiwch yr eitem, os yw'n cadw'r siâp newydd, yna mae'n debygol y gellir ei hailgylchu. Os yw'r eitem yn dychwelyd i'w ffurf wreiddiol, yna ni ellir ei hailgylchu.

Gallwch hefyd roi cynnig ar y prawf hwn gyda phapur lapio sy'n debyg i ffoil, ac os nad oes modd ei ailgylchu, beth am arbed rhywfaint o arian a'i ailddefnyddio?

# Banciau ailgylchu

Dydyn ni ddim yn casglu batris a thecstilau yn y bag clir ar hyn o bryd. Ewch â'r eitemau hyn i'ch banc ailgylchu agosaf - chwiliwch am eich banc agosaf ar y rhestr hon:

- Neuadd Carpenter, Glan-y-Môr
  Tecstilau
- Canolfan Hamdden Plascrug Ffordd Llanbadarn
  Tecstilau
- Llyfrgell tref Aberystwyth
  Batris ac eitemau trydanol bach
- Adeilad Cledwyn, Campws Penglais
  Tecstilau
- Cwrt Mawr, Campws Penglais
  Tecstilau
- Pentre Jane Morgan, y 'Pentref Myfyrwyr'
  Tecstilau

# Safleoedd gwastraff cartref

Ar gyfer eitemau na allwch eu hailgylchu naill ai drwy eich casgliad o ymyl y ffordd neu drwy fanc ailgylchu, ewch â nhw i'r safle gwastraff cartref yn Ystad Ddiwydiannol Glanyrafon, Llanbadarn, Aberystwyth, SY23 3JQ

Dyma rai o'r eitemau y gallwch fynd â nhw i'r safle:

- Offer trydanol bach e.e. sychwyr gwallt, raseli, haearnau smwddio a radios
- Setiau teledu a nwyddau gwyn fel oergelloedd
- Pren, batris, tecstilau, gwastraff gardd, metelau, olew coginio wedi'i ddefnyddio a llawer mwy!

Mae'r safle ar agor o 9-5 ddydd Llun i ddydd Gwener a 10-3 ddydd Sadwrn & ddydd Sul

# Ardaloedd peilot

Ar hyn o bryd rydym yn cynnal dau gynllun peilot i leihau nifer y problemau sy'n gysylltiedig â gwastraff yng nghanol tref Aber.
Dyma ragor o wybodaeth rhag ofn eich bod yn byw mewn ardal beilot:

## Peilot 1

**Lle?**
Ar gyfer trigolion sy'n byw ar yr un ochr o'r stryd â bar Harry's ar Rodfa'r Gogledd

**Sut mae'n gweithio?**
Rydym yn darparu biniau olwynion cymunedol ar gyfer preswylwyr sy'n byw ar y stryd hon. Bydd y biniau'n cael eu danfon i'r stryd hon ar ôl 4pm ar y diwrnod cyn y diwrnod casglu (dydd Llun) a'u symud ar eich diwrnod casglu arferol (dydd Mawrth). Bydd eich diwrnod casglu yn ogystal â pha mor aml y bydd eich gwastraff yn cael ei gasglu yn aros yr un fath.

**GWNEWCH YN SIŴR BOD Y GWASTRAFF CYWIR YN MYND I MEWN I'R BIN CYWIR**




## Peilot 2



**Lle?**
Ar gyfer trigolion sy'n byw ar y strydoedd canlynol: Stryd Portland, Ffordd Portland, Stryd y Gorfforaeth, Stryd y Frenhines, y Porth bach, y Stryd Newydd, Lôn Cambria a Fford Tafarn Llwyd.

**Sut mae'n gweithio?**
Rydym yn darparu sachau du a gwyn i drigolion sy'n byw ar y strydoedd hyn i roi eu gwastraff y tu mewn, bagiau du ar gyfer gwastraff na ellir ei ailgylchu a bagiau gwyn ar gyfer ailgylchu. Bydd y sachau'n cael eu dosbarthu ar ôl 4pm y diwrnod cyn y diwrnod casglu (Dydd Llun) ac yn cael eu symud ar y diwrnod casglu (dydd Mawrth). Bydd eich diwrnod casglu a'ch amlder yn aros yr un fath.

**CLYMWCH EICH BAGIAU DU A'CH BAGIAU AILGYLCHU CLIR CYN EU RHOI YN Y SACHAU A DDARPERIR**

## Pam ydym ni'n cynnal y cynlluniau peilot hyn?

Drwy ddarparu biniau a sachau, mae bywyd gwyllt yn llai tebygol o ymosod ar y gwastraff. Drwy adael y biniau ar y stryd dros nos mae'n rhoi cyfle i breswylwyr gyflwyno eu gwastraff ar adeg sy'n gyfleus iddyn nhw. Drwy symud y biniau ar ôl casglu'r gwastraff, ni fyddant dan draed nac yn denu tipio anghyfreithlon.

# Datrys problemau

### Sticer ar eich bagiau ailgylchu/gwastraff bwyd

Os oes sticer oren ar eich gwastraff, mae hyn yn golygu bod yr eitemau anghywir wedi'u rhoi yn y bagiau neu fod y gwastraff wedi'i halogi e.e. oherwydd bod eitemau budr yn y bag ailgylchu.

Os yw hyn yn digwydd i chi, tynnwch yr eitemau hynny o'r bag a chyflwynwch y bag ailgylchu/gwastraff bwyd unwaith eto ar eich diwrnod casglu nesaf.

### Aflonyddwch i'r Gwasanaeth Casglu Gwastraff

Efallai y bydd llawer o bethau'n effeithio ar gasgliadau gwastraff, gan gynnwys materion yn ymwneud â mynediad, problemau'n ymwneud ag adnoddau, a thywydd garw.

Os nad yw eich gwastraff wedi cael ei gasglu, ewch i: www.ceredigion.gov.uk/aflonyddwchir gwasanaeth er mwyn cael y wybodaeth a'r cyngor diweddaraf ar gyfer eich ardal.

### Symud allan?

Ar ddiwedd y flwyddyn, os oes gennych eitemau diangen a allai fod yn ddefnyddiol i eraill, gallwch eu rhoi i un o'r canlynol:

- myfyrwyr eraill drwy gyfrwng Undeb y Myfyrwyr
- siop elusen leol, neu gallwch fynd â nhw i CRAFT, sefydliad ailddefnyddio cymunedol sydd wedi'i leoli wrth ymyl yr orsaf yn y dref

**Peidiwch â thaflu unrhyw beth y gellir ei ailddefnyddio at achos da!**

## Byddem wir yn hoffi clywed gennych

**Ymholiadau neu gwestiynau? Cysylltwch â ni:**

01545 570881

clic@ceredigion.gov.uk

Cyngor Sir CEREDIGION County Council

www.ceredigion.gov.uk/recycling

ailgylchu • recycle Ceredigion